

# Gweithiwr Cymdeithasol

## Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau,

## Gwasanaethau Plant,

**Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 2: G05 £35,412 - £38,220**

**Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3: G06 £39,152 - £41,771**

**Parhaol, Llawn Amser**

**Swyddfeydd y Sir, y Fflint, a gweithio'n Hyblyg/ Hybrid**

Mae'r Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau'n recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol i ymuno â nhw i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn Sir y Fflint.

Mae'r Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau'n rheoli gofal a chymorth ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan reoli a gweithredu ein dyletswyddau statudol o dan Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014). Fel Gweithiwr Cymdeithasol o fewn y tîm, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd reoli llwyth achos gyda chefnogaeth eu Dirprwy Reolwr Tîm, gan dderbyn cyfrifoldeb am reoli cynlluniau gofal unigol, asesu anghenion parhaus, risgiau a sicrhau cynnydd cadarnhaol. Rydym yn cefnogi pobl ifanc nes y byddant yn oedolion ac mae ein gwasanaeth gadael gofal yn rhan o'n tîm gan alluogi gweithio'n agos er mwyn datblygu cynlluniau llwybrau a sicrhau bod cymorth cyson ar gael i'n pobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion.

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig, sy'n rhannu'r un ymrwymiad a balchder yn ein plant sy'n derbyn gofal, ac sy'n llawn ysgogiad i hyrwyddo canlyniadau da iddynt. Mae'r swyddi yn agored i Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a Gweithwyr Cymdeithasol profiadol sydd wedi cwblhau eu Haddysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus.

Darllenwch y swydd-ddisgrifiad cyffredinol ynghlwm ac, os ydych yn credu fod gennych y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gofynnol, rhowch wybod i ni pam mai chi sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd. Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am y rôl Gwaith Cymdeithasol cysylltwch â Rheolwr y Tîm, Katie Ball Katie.ball@flintshire.gov.uk / 01352 701016.

Mae'r rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru â Chyngor Gofal Cymru. Bydd y swydd hon yn golygu y bydd gennych chi lawer o gyswllt â phlant ac felly bydd rhaid i chi gael eich gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau newydd o staff neu staff presennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.